

ATODIAD 1: Y Raddfa Ffioedd ar gyfer: Canllaw Rheoli Datblygu Cyngor Sir Caerfyrddin a'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer Cyngor y Codir Tâl amdano sy'n ymwneud â materion 'Cyn Cyflwyno Cais' ac 'Ar ôl Cael Caniatâd' mewn perthynas â Phrosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd (NSIP) (Ddeddf Cynllunio 2008) – yn weithredol o 15 Hydref 2014 ymlaen

| Y Categori Datblygu | Y Camau Gweithredu | Y Tâl a Godir (gan gynnwys TAW) |
|---|---|---|
| Prosiect Seilwaith Cenedlaethol ei Arwyddocâd (NSIP) fel y'i diffiniwyd gan Ddeddf Cynllunio 2008 | Darparu cyngor Cyn Cyflwyno Cais ar gyfer <u>safleoedd newydd neu ragor o ddatblygu ar safleoedd presennol</u> – gan gynnwys trafodaethau ag ymgeiswyr/asiantiaid; ymchwil; ymweliadau safle; llunio adroddiadau manwl. | £25 yr awr (swyddogion); £33 yr awr (Rheolwr Cadwraeth Cefn Gwlad); £65 yr awr (Pennaeth Cynllunio) |
| Prosiect Seilwaith Cenedlaethol ei Arwyddocâd (NSIP) fel y'i diffiniwyd gan Ddeddf Cynllunio 2008 | Cyngor 'Cyn Cyflwyno Cais' ynghylch rhyddhau'n ffurfiol Ofynion Cynllunio sy'n ymwneud â Gorchymyn Caniatâd Datblygu ar ôl cydymffurfio â hwy. | £25 yr awr (swyddogion); £33 yr awr (Rheolwr Cadwraeth Cefn Gwlad); £65 yr awr (Pennaeth Cynllunio) |
| Prosiect Seilwaith Cenedlaethol ei Arwyddocâd (NSIP) fel y'i diffiniwyd gan Ddeddf Cynllunio 2008 | Tâl am reoli a gweinyddu | 5% o'r ffi gyfan |
| Prosiect Seilwaith Cenedlaethol ei Arwyddocâd (NSIP) fel y'i diffiniwyd gan Ddeddf Cynllunio 2008 | Ffioedd cyfreithiol | Tâl penodedig cychwynnol o £148. Y gyfradd yr awr I'W CHADARNHAU wedi hynny yn dibynnu ar lefel yr enillydd ffi sy'n ofynnol. |
| Prosiect Seilwaith Cenedlaethol ei Arwyddocâd (NSIP) fel y'i diffiniwyd gan Ddeddf Cynllunio 2008 | Costau Teithio | £0.45 y filltir |
| Prosiect Seilwaith Cenedlaethol ei Arwyddocâd (NSIP) fel y'i diffiniwyd gan Ddeddf Cynllunio 2008 | Unrhyw waith 'cyn cyflwyno cais' (rhag-gais) nad yw wedi'i gynnwys yn un o'r categorïau uchod. | £25 yr awr (swyddogion); £33 yr awr (Rheolwr Cadwraeth Cefn Gwlad); £65 yr awr (Pennaeth Cynllunio) |

CANLLAW RHEOLI DATBLYGU CYNGOR SIR CAERFYRDDIN A'R CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH AR GYFER CYNGOR Y CODIR TÂL AMDANO SY'N YMWNEUD Â MATERION 'CYN CYFLWYNO CAIS' AC 'AR ÔL CAEL CANIATÂD' MEWN PERTHYNAS Â PHROSIECTAU SEILWAITH CENEDLAETHOL EU HARWYDDOCÂD (NSIP) (DEDDF CYNLLUNIO 2008)

1.0 Cyflwyniad

1.1 **XXXXXXX** yw'r datblygwr ac mae'n bwriadu cyflwyno cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu o dan ddarpariaethau Deddf Cynllunio 2008 i'r Gyfarwyddiaeth Seilwaith Cenedlaethol sy'n rhan o'r Arolygiaeth Gynllunio. Mae'r Cytundeb hwn yn nodi'r trefniadau er mwyn i'r Cyngor ddarparu cyngor 'cyn cyflwyno cais' (rhag-gais) i'r Datblygwr ynghylch pob mater cynllunio. Bydd y gwasanaeth cynghori hefyd yn berthnasol i wybodaeth a sylwadau y mae'r Datblygwr yn gofyn amdanynt mewn perthynas â rhyddhau'n ffurfiol Ofynion Gorchmynion Caniatâd Datblygu ar ôl cydymffurfio â hwy, yn ogystal â monitro caniatâd. Nid yw'r gwasanaeth yn berthnasol i gyngor sy'n statudol ofynnol o dan delerau Deddf Cynllunio 2008.

2.0 Y Dyletswyddau

Cyngor 'Cyn Cyflwyno Cais'

- 2.1 Bydd y Datblygwr yn cydgysylltu â'r Cyngor ynghylch ceisiadau am gyngor 'cyn cyflwyno cais' (rhag-gais) sy'n ymwneud â chynlluniau sy'n gwneud cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu o dan delerau Deddf Cynllunio 2008. Bydd y gwasanaeth cynghori 'cyn cyflwyno cais' hefyd yn berthnasol i wybodaeth a sylwadau y bydd y Cyngor yn eu darparu cyn i Ofynion Gorchmynion Caniatâd Datblygu gael eu rhyddhau'n ffurfiol ar ôl iddynt gael eu cyflawni. Y Datblygwr fydd yn dal yn gyfrifol am bennu pa lefel o gyngor sy'n briodol.
- 2.2 Bydd y Datblygwr yn darparu briff cychwynnol i'r Cyngor ynghylch lefel y cyngor 'cyn cyflwyno cais' sy'n ofynnol, drwy gyfrwng cyfarfod yn swyddfeydd y Cyngor, neu drwy ohebiaeth, cynhadledd fideo neu delegynhadledd, ac ategir hyn gan nodyn briffio, adroddiadau neu unrhyw wybodaeth arall y bernir ei bod yn angenrheidiol.
- 2.3 Bydd y Cyngor a'r Datblygwr yn dod i gytundeb ysgrifenedig, cyn pen wythnos ar ôl y briff cychwynnol, ynghylch y dyddiad(au) targed ar gyfer ymateb i friff y Datblygwr. Yn dibynnu ar natur a lefel y gwaith sy'n ofynnol, bydd y Cyngor yn trefnu i unigolyn neu dîm amlddisgyblaeth i roi'r cyngor 'cyn cyflwyno cais'.
- 2.4 Disgwylir i'r Cyngor gadw mewn cysylltiad ag aelod enwebedig o dîm prosiect y Datblygwr pan fydd angen rhagor o wybodaeth/eglurhad ynghylch unrhyw fater.
- 2.5 Disgwylir i'r Cyngor gyflwyno ymateb ysgrifenedig ffurfiol i'r Datblygwr yn unol â'r dyddiad targed, oni bai y cytunwyd wedi hynny ar ddyddiad diweddarach â'r Datblygwr.

2.6 Disgwylir i Swyddogion y Cyngor:

- Ymweld â'r safle a'r tir o'i gwmpas o leiaf unwaith, a disgwyl i'r Datblygwr ddarparu'r caniatadau angenrheidiol i swyddogion y Cyngor fynd ar dir sy'n gysylltiedig â safle'r datblygiad arfaethedig. Bydd crynodeb o'r ymweliad safle yn cael ei gynnwys yn ymateb ffurfiol y Cyngor gan dynnu sylw at unrhyw nodweddion a/neu faterion o bwys.
- Cloriannu'r polisi cynllunio a'r modd y mae'n berthnasol i'r datblygiad arfaethedig ac ystyriaethau cynllunio eraill perthnasol.
- Tynnu sylw at bryderon a chyd-drafod newidiadau o ran y cynllun sydd wedi'i gyflwyno, os oes angen, er mwyn ei wneud yn dderbyniol o ran cynllunio.
- Ymchwilio'n drylwyr i faterion cynllunio sy'n ymwneud â'r datblygiad arfaethedig ac ymateb i gwestiynau a materion y mae'r Datblygwr angen eglurhad yn eu cylch.
- Cadw nodiadau/ffeiliau ynghylch pob galwad ffôn, ymweliad safle a chyfarfod sy'n berthnasol i brosesu'r cais am gyngor 'cyn cyflwyno cais'.
- Lle bo'n berthnasol, bydd ymateb y Cyngor yn cael ei ategu gan ffotograffau, mapiau, lluniadau a deunydd eglurhaol arall os bernir bod hynny'n angenrheidiol.

3.0 CYFFREDINOL

- 3.1 Rhaid i Swyddogion y Cyngor arfer arbenigedd, gofal a diwydrwydd proffesiynol rhesymol wrth gyflawni'r rhwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn.
- 3.2 Ni fydd y Cyngor yn neilltuo neu drosglwyddo unrhyw rwymedigaeth o dan y Cytundeb hwn heb yn gyntaf gael cytundeb ysgrifenedig y Datblygwr.
- 3.3 Bydd y cyngor 'cyn cyflwyno cais' gan y Cyngor yn cael ei roi'n ddiwyll a bydd yn seiliedig ar wybodaeth a roddir gan y Datblygwr neu a gedwir gan y Cyngor. Er y gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb yr ymateb, dylid deall na ddylai'r Cyngor na'i Swyddogion gael eu dal yn gyfreithiol-gyfrifol am unrhyw gyngor a roddir. Hefyd, ni ddylid dehongli y bydd y cyngor hwn yn cael ei ystyried yn rhwymol os bydd cais cynllunio wedi hynny.

4.0 TALIADAU, ANFONEBU A THALU

- 4.1 Bydd graddfa gychwynnol y ffioedd taladwy i'r Cyngor am wneud y gwaith yn cael ei nodi yn Atodiad 1 i'r Cytundeb hwn, a chaiff ei hadolygu'n flynyddol er mwyn ystyried codiadau cyflog yr NJC (y Cyd-gyngor Cenedlaethol) ar gyfer staff llywodraeth leol. Bydd y Cyngor yn hysbysu'r Datblygwr yn ysgrifenedig ynghylch y raddfa ffioedd ddiwygiedig sydd i'w chyflwyno.
- 4.2 Dylid anfonebu bob tri mis, a dylid anfonebu am y gwaith a wnaed.
- 4.3 Y telerau talu arferol yw 30 niwrnod ar ôl yr anfoneb, ac fel rheol disgwylir i'r taliad gael ei wneud drwy drefniant BACS.
- 4.4 Bydd ffi gweinyddu a rheoli, sef 5%, yn cael ei hychwanegu at gost gwasanaeth 'cyngor cyn cyflwyno cais' y Cyngor.
- 4.5 Os oes angen, bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ymgynghori ag is-adran y Gyfraith o fewn y Cyngor cyn ymateb i gais y Datblygwr am gyngor 'cyn cyflwyno cais' a chodir ffioedd cyfreithiol yn unol â hyn.

5.0 CYFRINACHEDD

- 5.1 Yn amodol ar Gymal 5.2 a 5.3 isod, rhaid i bob Parti gadw'n gyfrinachol yr holl Wybodaeth sy'n Sensitif o safbwynt Masnachol a ddatgelir iddo. Rhaid i bob Parti beri na fydd ei gyflogeion yn datgelu i unrhyw berson unrhyw Wybodaeth sy'n Sensitif o safbwynt Masnachol. Ystyr "Gwybodaeth sy'n Sensitif o safbwynt Masnachol" yw'r holl faterion a ddynodir felly gan y naill barti neu'r llall yn ysgrifenedig a phob gwybodaeth arall sy'n ymwneud â gweithdrefnau, ceisiadau cynllunio, busnes, materion, cynhyrchion, cyfrinachau masnach, datblygiadau, medr, personél, cwsmeriaid a chyflenwyr y naill barti neu'r llall a gwybodaeth y gellir yn rhesymol ei hystyried yn wybodaeth gyfrinachol y parti sy'n ei datgelu
- 5.2 Mae'r Datblygwr yn cydnabod ymrwymiad y Cyngor i lywodraeth agored a hawl y cyhoedd i weld gwybodaeth. Yn unol â hyn, mae'r Partïon yn cytuno: lle mae'r Cyngor yn rheoli cais am ddatgelu gwybodaeth sydd wedi'i chofnodi a lle mae unrhyw eithriad yn berthnasol o dan y Ddeddfau Rhyddid Gwybodaeth, y bydd yn ymgynghori â'r Datblygwr ynghylch unrhyw gais am ddatgelu gwybodaeth sydd wedi'i chofnodi y mae'r Cymal hwn yn berthnasol iddo ac yn unol â'r canllawiau y cyfeirir atynt yn y Côd Ymarfer ar Gyflawni Rhwymedigaethau Awdurdodau Cyhoeddus a gyhoeddwyd o dan adran 45 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Rhaid i'r Datblygwr gydweithredu â'r Cyngor sy'n gwneud y cais ac ymateb cyn pen 5 niwrnod gwaith i unrhyw gais ganddo am gymorth i benderfynu sut i ymateb i gais am ddatgeliad; a
- 5.3 Rhaid i bob Parti enwebu cynrychiolydd ar gyfer ystyried a chytuno ar faterion sy'n ymwneud â'r Cymal 5.1 hwn.
- 5.4 Ni fydd Cymal 5 yn berthnasol i:
- 5.4.1 Unrhyw ddatgeliad gwybodaeth i gynghorwyr proffesiynol y naill Barti a'r llall;
- 5.4.2 Unrhyw ddatgeliad gwybodaeth sy'n ofynnol i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth fel y nodir yng Nghymal 5.2 uchod.
- 5.4.3 Unrhyw ddatgeliad sy'n ofynnol dan unrhyw ddeddf neu unrhyw wybodaeth nad yw rhwymedigaeth cyfrinachedd yn berthnasol iddi

6.0 Y CYTUNDEB

Trwy hyn cytunir a datgenir fel a ganlyn:

- 6.1 Bydd y Cytundeb hwn yn dechrau ar **XXXXXXX** a bydd yn para am o leiaf flwyddyn, oni bai fod y naill barti neu'r llall yn ei derfynu gan roi nid llai na mis o rybudd ysgrifenedig.
- 6.2 Os torrir y Cytundeb hwn gan y Cyngor, bydd gan y Datblygwr hawl i derfynu'r Cytundeb ar unwaith.

- 6.3 Os cwyd unrhyw anghydfod neu wahaniaeth barn rhwng y partiön ynghylch y Cytundeb hwn, rhaid ei gyfeirio at Gynllunydd Tref siartredig ('y Cynllunydd') annibynnol a benodir ar y cyd gan y partiön, neu oni ddeuir i gytundeb, at Gynllunydd Tref siartredig a benodir gan Lywydd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (yr RTPI).
- 6.4 Bydd hawl gan y cynllunydd a benodir o dan baragraff 7.4 uchod i ofyn am y cyfryw gyngor a chymorth proffesiynol arall ag y mae'n barnu sydd, yn ôl ei ddisgresiwn llwyr ei hun, yn ddymunol, ac i ddibynnu ar y cyfryw gyngor a chymorth, a bydd penderfyniad y cynllunydd, lle na fo gwall amlwg, yn derfynol a bydd y partiön yn rhwym wrtho.
- 6.5 Bydd y ffioedd sy'n daladwy i'r Cynllunydd a benodir o dan baragraff 7.4 uchod yn cael eu cwrdd a'u talu gan y Datblygwr a'r Cyngor yn y cyfryw gyfrannau a modd ag y penderfyna'r Cynllunydd, ac oni phenderfyna'r Cynllunydd, mewn cyfran gyfartal.

Llofnodion

Ar ran y Datblygwr:

Ar ran y Cyngor: Cyngor Sir Caerfyrddin

Eifion Bowen: